

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Fawrth 2018 am 7:10pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Peter Parker, Arwel Pierce, Griffith Evan Thomas;  
Alan H. Jones; Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim. Nodwyd bod yn braf gweld pob cynghorydd yn bresennol.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 19 Chwefror 2018

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Ceisiadau ariannol:

4.1 Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd

4.2 Theatr Bara Caws Cyf

4.3 Y Groes Goch Brydeinig

4.4 Dawns i Bawb

4.5 Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

4.6 Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

4.7 RABI Meirionnydd - Cefnogi Teuluoedd Fferm

**PENDERFYNIAD:**

4.1 Rhodd o £50 gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig a'r Cynghorydd Simon Jones yn eilio'r cynnig

4.2 Peidio â rhoi rhodd

4.3 Peidio â rhoi rhodd

4.4 Peidio â rhoi rhodd

4.5 Peidio â rhoi rhodd

4.6 Peidio â rhoi rhodd

4.7 Peidio â rhoi rhodd

5. Zurich - Yswiriant:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y manylion ar gyfer 2018. Edrych yn fanylach ar fanylion yr offer chwarae sydd yn y cae chwarae er mwyn sicrhau bod lefel digonol o yswiriant.

6. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101593	£166.64
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101594	£41.60
B Gwilym	Costau teithio	101595	£408.60
B Gwilym	Teleffon	101596	£37.50
B Gwilym	Costau swyddfa	101597	£20.45
Travis Perkins	Paent i'r pypiau dwr	101598	£30.50
Zurich Municipal	Yswiriant	101599	£607.98
Y Ganolfan	Llogi Ystafell	101600	£18.00
Clwb Ffermwyr Ifanc	Rhodd	101601	£50.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tir ger Clydfan, Ffordd y Felin, Bryncrug (NP5/55/60G):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad, gyda'r datblygiad i'w groesawu. Anfon llythyr at yr Awdurdod yn gofyn pam fod y tir ger Ffordd y Felin wedi ei dynnu o'r cynllun datblygu.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tyn Llwyn Hen, Brynchrug (NP5/55/21A):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad, cyn belled nad yw'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar y llwybr cyhoeddus.

9. Cyngor Gwynedd - Ail-Fodelu Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd:

Adroddwyd bod Pwyllgor y Ganolfan yn fodlon cynnig ystafell yn rhad ac am ddim er mwyn cynnal clwb ieuenctid, yr oedd Pwyllgor y Ganolfan hefyd yn awyddus i gynnal cyfarfod cyhoeddus ar y cyd a'r Cyngor Cymuned er mwyn canfod barn trigolion lleol a chanfod a oes diddordeb mewn cynnal y clwb drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr.

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda chynghorau cymuned gyfagos sef Llanegryn ac Abergynolwyn er mwyn eu hysbysu o'r cyfarfod cyhoeddus (nos Fawrth, Ebrill 10fed) ac er mwyn gofyn a ydynt yn dymuno cyfrannu tuag at y gost o gynnal y clwb ieuenctid ym Mrynchrug, ar sail un rhan o dair o'r gost.

10. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith mis Mawrth 2018:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

11. Cyngor Gwynedd - Enwi Ffordd ym Mrynchrug / Gosod Arwydd Ffordd:

Adroddwyd bod uned Enwi Strydoedd, o fewn Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cadarnhau mai Cefn Coed yw enw'r ffordd sydd rhwng yr A493 a'r B4405 ac yr oedd modd cyflwyno cais am arwydd drwy'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Cafwyd gwybodaeth gan y clerc bod cais am arwydd eisoes wedi ei gyflwyno a bod cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn gan Bennaeth yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol.

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

12. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru - Canllaw i Brif Gyngorau ar Arolygon Cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-bin ailgylchu wedi cyrraedd a bod angen gosod sticer fel enw arno

-plant yn ymgasglu ger y Pafiliwn ond nid oedd unrhyw ddifrod

-y Pafiliwn angen sylw, gyda'r canopi wedi ei ddifrodi yn y gwynt a defnydd inswleiddio wedi hedfan ar hyd y cae

**PENDERFYNIAD:** Gofyn i'r Heddlu gadw llygaid ar y Pafiliwn  
Diolch i'r Clwb pêl-droed am drefnu bod plymar yn trwsio byrst, gyda'r anfoneb i gyrraedd Gofyn am ddyfynbris gan Rhys Mumford, Dean Bailey, Barry John i atgyweirio'r canopi a gosod latch sydd yn addas ar gyfer clo

14. Adroddiad y Cyngorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

-wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ffens sydd wedi disgyn ar dir preifat, yr oedd yn gyfrifoldeb ar y tir feddiannwr gan ei fod ar dir preifat

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan y Cyngorydd Sir

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn tynnu'r ffordd ganlynol o'r rhaglen cynnal a chadw, sef ger Plas Coch, ble mae fforch ar Bryn y Castell a Braich y Rhiw.

Adroddwyd bod cais Cyngor Cymuned Brynchrug am grant tuag at greu fideo sydd yn cyfweld trigolion y pentref wedi bod yn aflwyddiannus.

**PENDERFYNIAD:**

Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn pryd cafodd gwaith ei wneud ar y ffordd ddiwethaf.  
Ail gyflwyno cais am grant gan y Loteri, gan hefyd ystyried cronfeydd eraill megis y Cyngor Celfyddydau.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:25pm

Llofnod y Cadeirydd .....